OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 437 (Cy.53)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - - 27 Chwefror 2013
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 28 Chwefror 2013
Yn dod i rym yn unol ag adran 1(1)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau yn adrannau 29, 408, 537, 537A(1) a (2) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac yn adrannau 30(1) a (2) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**2**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**) ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny yr oedd ymgynghori â hwy yn ymddangos yn ddymunol i Weinidogion Cymru yn unol ag adran 408(5) o Ddeddf Addysg 1996 yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013 ac maent yn dod i rym ar 1 Mai 2013 ac eithrio rheoliad 3(5) a ddaw i rym ar 1 Medi 2013.

(**1**) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 29(3) gan Atodlen 30 a pharagraff 67 o Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). Diwygiwyd adran 29(3) a (5) gan O.S. 2010/1158. Diwygiwyd adran 408 gan baragraff 30 o Atodlen 7 ac Atodlen 8 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), paragraffau 57 a 106 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, paragraff 57 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Sgilau 2000 (p.21), Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 12 a Rhan 7 o Atodlen 16 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22) a chan O.S. 2010/1158. Diwygiwyd adran 537 gan baragraff 37 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997, paragraffau 57 a 152 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, paragraff 60 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 a chan O.S. 2010/1158. Amnewidiwyd adran 537A gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 2010/1158.

(**2**) 2002 p.32. Diwygiwyd is-adrannau (1) a (2) o adran 30 gan Ddeddf Addysg 2005, adran 103(1)(a). Diwygiwyd is-adrannau (3) a (4) o adran 30 gan Ddeddf Addysg 2005, adran 103(1)(b).

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn yr adrannau yn Neddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr adrannau yn Neddf Addysg 2002 i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011

2.—(1) Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ar ôl y diffiniad o "absenoldeb anawdurdodedig" mewnosoder—

"ystyr "adroddiad cymharol ar lythrennedd a rhifedd" ("*literacy and numeracy comparative report*") yw adroddiad a ddarperir i'r ysgol gan Weinidogion Cymru ar berfformiad ysgol yn yr asesiadau statudol sy'n cynnwys cymhariaeth o berfformiad yr ysgol honno mewn cysylltiad â'r profion hynny mewn perthynas ag ysgolion eraill;";

(b) ar ôl y diffiniad o "adroddiad llywodraethwyr" mewnosoder—

"ystyr "asesiadau statudol" ("*statutory assessments*") yw'r trefniadau asesu a bennir gan Weinidogion Cymru yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013;".

(3) Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 5 mewnosoder—

"**5A.** Yr adroddiad cymharol diweddaraf ar lythrennedd a rhifedd.".

Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011

3.—(1) Mae Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, hepgorer paragraff (3)(a).

(3) Yn rheoliad 4, ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Pan fo disgybl ym mlwyddyn olaf y cyfnod sylfaen rhaid i'r adroddiad gynnwys yr wybodaeth sydd ym mharagraff 1 o Ran 1 o'r Atodlen.".

(4) Yn yr Atodlen, ar ôl paragraff 6 mewnosoder—

"Rhan 4A

Asesu disgyblion yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol dau a thri mewn darllen a rhifedd

6A.—(1) Canlyniadau unrhyw asesiad a gynhelir yn unol â'r trefniadau asesu a bennir gan Weinidogion Cymru yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013.

(4) Yn yr Atodlen, ar ôl paragraff 6 mewnosoder—

(**4**) O.S. 2011/1939 (Cy.207).
(**5**) O.S. 2011/1943 (Cy.210).